



**Dyddiad cyhoeddi:** 15 Hydref 2018

## Codiad Cyflog Blynyddol

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod, dyddiedig 10 Hydref 2018, pan ofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â chodiad cyflog blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer eleni a'r llynedd.

Nid yw trafodaethau ynghylch cyflogau, na chytundebau dilynol, wedi'u cynnal yn flynyddol ar gyfer 2017-18 a 2018-19, ond maent yn perthyn i ddau gyfnod o ddwy flynedd, sef 2016-17 a 2017-18 a 2018-19 a 2019-20 yn y drefn honno. Er gwybodaeth, y strategaeth gyflog gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru oedd alinio â pholisi cyflog ehangach y sector cyhoeddus ar gyfer cynnydd o 1% y flwyddyn ar gyfartaledd ar draws blynyddoedd.

Amlinellir y wybodaeth ynghylch y codiadau cyflog ar gyfer y ddau gyfnod o ddwy flynedd isod.

### **2016-17 a 2017-18**

Gweithredwyd y cytundeb dwy flynedd canlynol ynghylch cyflogau:

- Cymhwyso codiad o 1.5% i bob band cyflog (ar wahân i hyfforddeion archwilio cyn 2016), yn weithredol o 1 Ebrill 2016
- Tynnu pwynt 0 o fandiau cyflog 2-7 ac A-C, yn weithredol o 1 Ebrill 2017
- Ar gyfer bandiau cyflog 1-7 yn unig, o 1 Ebrill 2017:
  - Codiad o 0.5% i'r pwynt isaf a'r gyfradd darged
  - Cydraddoli pob cam rhwng y pwyntiau cynyddrannol
- O 1 Ebrill 2017, codiad o 0.5% ar gyfer pob pwynt cynyddrannol ym mandiau technegwyr, hyfforddeion archwilio a chyfarwyddwyr
- Cynyddwyd y band cyflog ar gyfer hyfforddeion archwilio cyn 2016 yn unol â'r prif gynnig cyflog, sef 1.5% o Ebrill 2016 a 0.5% o Ebrill 2017

### **2018-19 a 2019-20**

Mae'r cytundeb dwy flynedd canlynol ynghylch cyflogau yn gymwys o 01 Ebrill 2018.

	<b>Codiad Blwyddyn 1 1 Ebrill 2018</b>	<b>Codiad Blwyddyn 2 1 Ebrill 2019</b>	<b>Pwyntiau tâl eraill o fewn y band cyflog, yn weithredol o 1 Ebrill</b>
Band Cyflog 1	£800	£400	Tynnwyd pwynt cyntaf y band cyflog, er mwyn iddo fod yn fand cyflog tri phwynt. Ni chafwyd cynnydd i bwynt cyntaf diwygiedig y band cyflog yn y ddwy flynedd. Addaswyd y trydydd pwynt er mwyn gwneud y camau rhwng y pwyntiau ar gyfer y ddwy flynedd yn gyfartal.
Bandiau Cyflog 2-7	2.0%	0.6%	Tynnwyd pwynt cyntaf y bandiau cyflog er mwyn iddynt fod yn fandiau cyflog pedwar pwynt. Ni chafwyd cynnydd i bwynt cyntaf diwygiedig y bandiau cyflog yn y ddwy flynedd. Addaswyd pob pwynt talu arall er mwyn gwneud y camau'n gyfartal yn ystod y ddwy flynedd.
Band Cyflog C	2.0%	0.6%	Ni thynnwyd pwyntiau tâl ac felly mae'n aros yn fand cyflog chwe phwynt. Ni chafwyd cynnydd i bwynt cyntaf y band cyflog yn y ddwy flynedd. Addaswyd pob pwynt talu arall er mwyn gwneud y camau'n gyfartal yn ystod y ddwy flynedd.
Bandiau Cyflog B-A	2.0%	0.6%	Tynnwyd pwynt cyntaf y bandiau cyflog er mwyn iddynt fod yn fandiau cyflog chwe phwynt, er mwyn alinio â Band Cyflog C. Ni chafwyd cynnydd i bwynt cyntaf diwygiedig y bandiau cyflog yn y ddwy flynedd. Addaswyd pob pwynt talu arall er mwyn gwneud y camau'n gyfartal yn ystod y ddwy flynedd.

Bandiau cyflog hyfforddeion graddedig – mae pwynt uchaf bandiau cyflog yr hyfforddeion yn dod yr un peth â phwynt isaf Band Cyflog 3. Mae pob pwynt talu arall o fewn bandiau cyflog hyfforddeion yn cynyddu 1% ym Mlwyddyn 1 ac 1% ym Mlwyddyn 2.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau o ran sut rwyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth